# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 19 Tachwedd 2013** |
| Amser: | **09:00 – 11:05** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_19_11_2013&t=0&l=en

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**Darren Millar (Cadeirydd)**
**Mohammad Asghar (Oscar) AC**
**Mike Hedges**
**Julie Morgan**
**Jenny Rathbone**
**Aled Roberts**
**Jocelyn Davies**
**Sandy Mewies**

Tystion:

**Dr David Bailey, BMA Cymru Wales**
**Dr Charlotte Jones, BMA Cymru Wales**

Staff y Pwyllgor:

**Fay Buckle (Clerc)**
**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**
**Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau bod Dr Andrew Goodall, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, yn methu â bod yn bresennol a bod ei sesiwn wedi'i hail-drefnu ar gyfer y Flwyddyn Newydd.

## 2 Gofal heb ei drefnu: Sesiwn dystiolaeth 1

2.1 Bu'r Pwyllgor yn holi Dr Charlotte Jones, Cadeirydd BMA, GPC Cymru, a Dr David Bailey, Dirprwy Gadeirydd BMA, GPC Cymru, ynghylch gofal heb ei drefnu.

Camau gweithredu:

Cytunodd Dr Jones i anfon copi o'r papur 'Sorted in One Go', y papur 'Solutions' a'r ffigurau ar gyfer gwariant pob bwrdd iechyd fesul claf a fesul blwyddyn ar wasanaethau y tu allan i oriau.

## 3 Papurau i'w nodi

3.1 Nodwyd y papurau.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Gofal heb ei drefnu: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafodd ar ofal heb ei drefnu a chytunodd i ysgrifennu at y Cyngor Meddygol Cyffredinol i gael gafael ar y data y cyfeiriwyd atynt yn y sesiwn dystiolaeth flaenorol.

## 6 Gwaith Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori'

6.1 Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ar y Gwaith Caffael a Rheoli Gwasanaethau Ymgynghori a chytunodd i drafod y mater eto ar ôl i'r adroddiad blynyddol cyntaf gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2015.

## 7 Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG: Cytuno ar yr adroddiad terfynol

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad. Awgrymwyd nifer o fân welliannau a chytunwyd y byddai drafft arall yn cael ei anfon ar gyfer cytuno arno y tu allan i'r pwyllgor.